Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Griffithstown
# Florence Place
# Griffithstown
# Pont-y-pŵl
# Torfaen
# NP4 5DN

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Griffithstown

Mae Ysgol Gynradd Griffithstown ym mhentref Griffithstown ger Pont-y-pŵl yn Nhorfaen. Adeg yr arolygiad, roedd 389 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 42 o ddisgyblion yn mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser. Mae'r ysgol yn trefnu ei disgyblion yn saith dosbarth un oedran, a phum dosbarth oedran cymysg, yn ogystal â'r dosbarth meithrin.

Mae tua 19% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim ar gyfartaledd. Mae hyn yn agos iawn at y cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae gan ryw 10% o ddisgyblion anghenion addysgol ychwanegol. Mae hyn tua hanner y cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol neu sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Arolygwyd yr ysgol gan Estyn ddiwethaf ym mis Mai 2014. Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Ebrill 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Griffithstown yn gymuned ddysgu hapus a gofalgar. Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac maent yn cymryd rhan mewn gwersi yn frwd. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemategol a gwyddoniaeth yn dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Fodd bynnag, maent yn llai llwyddiannus o ran datblygu eu medrau Cymraeg a TGCh.

Mae staff ac athrawon yn gofalu am ddisgyblion yn dda. Maent yn datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol ac yn helpu disgyblion i deimlo'n hyderus yn amgylchedd yr ysgol. Mae llawer o athrawon yn cynllunio a chyflwyno profiadau dysgu diddorol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn frwdfrydig. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cynorthwyo disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu yn ddigon da.

Mae arweinwyr yn llwyddo i greu cymuned gynhwysol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae pob aelod o staff yn gweithio'n dda fel tîm, ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau. Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn gweithio'n ddiwyd ac maent yn gefnogol i waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n bwrpasol ar ddatblygu cymuned ddysgu broffesiynol ar gyfer staff, ond nid ydynt yn canolbwyntio eu camau gweithredu'n ddigon da ar fonitro a gwella safonau a chynnydd disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â materion diogelwch ar y safle a nodwyd adeg yr arolygiad

A2 Gwella safonau mewn Cymraeg a TGCh

A3 Gwella prosesau ar gyfer nodi a chynorthwyo'r disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol i wneud cynnydd effeithiol, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu

A4 Gwella prosesau asesu a sicrhau bod athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i herio a chynorthwyo pob disgybl

A5 Sicrhau bod prosesau gwella yn canolbwyntio'n drylwyr ar werthuso a gwella safonau a chynnydd disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd sy'n debyg i'r rheiny a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni safonau da mewn llawer o feysydd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion sy'n llai abl bob amser yn gwneud cynnydd digon effeithiol. Nid yw disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim bob amser yn gwneud cynnydd mor gryf ag y gallent.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ar oedolion ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n dda. Mae llawer o ddisgyblion iau yn siarad yn hyderus am yr hyn y maent yn ei wneud yn ystod gweithgareddau annibynnol. Er enghraifft, wrth wisgo i fyny fel arch-ferch yn y dosbarth meithrin, mae un disgybl yn dweud 'Rwy'n helpu fy ffrindiau ac yn achub y byd'. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa estynedig ac yn trafod eu syniadau'n glir wrth siarad am eu gwaith. Er enghraifft, maent yn rhesymu'n ofalus ynglŷn â pham y gallai pobl brynu cynnyrch, os bydd rhywun enwog yn ei gymeradwyo.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen ystod addas o destunau gyda chywirdeb a rhuglder. Maent yn esbonio prif bwyntiau'r llyfrau y maent yn eu darllen a'r hyn y maent yn ei hoffi ynglŷn â nhw. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn ei chael yn anodd darllen testunau syml ar lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Nid oes ganddynt afael digon cryf ar strategaethau, fel sut i gyfuno seiniau llythrennau, i'w helpu i ddatgodio testunau. Erbyn Blwyddyn 6, mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen yn llwyddiannus. Maent yn adnabod y technegau a ddefnyddir gan awduron i ychwanegu ystyr at destun ac adnabod pryd y dylai atalnodi newid y ffordd y maent yn darllen testunau ar goedd. Er enghraifft, maent yn pwysleisio geiriau ac ymadroddion ag ebychnodau yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn darllen yn ddigon cywir ac nid ydynt yn adnabod na chywiro camgymeriadau a wnânt wrth ddarllen ar goedd. Nid yw lleiafrif ohonynt yn datblygu medrau effeithiol ar lefel uwch, fel y gallu i fwrw golwg drwy destunau wrth chwilio am brif bwyntiau a gwybodaeth.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif ohonynt yn dechrau trefnu eu hysgrifennu'n effeithiol ac yn ysgrifennu'n hyderus at ystod o ddibenion, fel ysgrifennu cerddi am dân gwyllt a chofnodion dyddiadur. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu disgrifiadau manwl ar destun neu thema, er enghraifft wrth ysgrifennu am ddatgoedwigo. Defnyddiant baragraffau'n gywir a gwnânt ddewisiadau iaith diddorol, er enghraifft disgrifio eira fel 'crystallised white icing'. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn sillafu'n gywir nac yn defnyddio atalnodi sylfaenol, fel priflythrennau ac atalnodau llawn, yn ddigon da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd i safon debyg wrth weithio ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth fuddiol o gysyniadau mathemategol ac yn defnyddio'r rhain yn hyderus yn eu gweithgareddau dysgu. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion iau yn nodi'n gywir ba grŵp o gerrig sydd drymaf gan ddefnyddio clorian a chiwbiau i ddarganfod pwysau pob carreg. Erbyn Blwyddyn 2,

mae llawer o ddisgyblion yn cwblhau patrymau ailadrodd yn annibynnol ac yn hyderus.  Ym Mlwyddyn 4 a Blwyddyn 5, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau datrys problemau yn hyderus i ddarganfod pa rif fyddai'n dod nesaf mewn dilyniant penodol.  Maent yn esbonio'r dulliau a ddefnyddiant yn glir gan ddefnyddio iaith fathemategol.  Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu dealltwriaeth o gymarebau i sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan gyfrifo nifer yr oedolion sydd eu hangen i fynd â disgyblion ar daith ysgol.  Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau priodol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).  Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio llechi cyfrifiadurol i gefnogi eu dysgu'n briodol, er enghraifft i reoli cymeriad sgrin i symud mewn cyfeiriad penodol.  Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn hyderus i ymchwilio a chyflwyno eu gwybodaeth.  Defnyddiant feddalwedd cyflwyno yn dda i wneud cyflwyniad ar bynciau fel gwasgaru hadau a diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop.  Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn hyderus i fynd at eu hadroddiadau eu hunain, storio neu adalw eu gwaith yn annibynnol.  Nid yw eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u hyder wrth ddefnyddio taenlenni a chronfeydd data wedi'u datblygu'n ddigon cryf.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg, a gwnânt gynnydd addas o ran datblygu eu medrau Cymraeg.  Mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn ymateb yn dda i ystod gyfyngedig o gyfarwyddiadau a gallant ofyn ac ateb ychydig o gwestiynau syml yn briodol.  Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn gofyn cwestiynau ac yn ateb yn briodol wrth siarad amdanyn nhw eu hunain.  Maent yn rhannu eu hoffterau a'u casbethau'n hyderus.  Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ddigon da.  Ni allant gynnal sgwrs syml yn Gymraeg, darllen testunau syml nac ysgrifennu ar lefel addas.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Da**

Mae agweddau bron pob un o'r disgyblion at yr ysgol ac at ddysgu yn gadarnhaol.  Maent yn ymgymryd â heriau newydd yn hyderus ac yn deall eu bod yn dysgu o wneud camgymeriadau.  Maent yn siarad yn hyderus ynglŷn â pheidio â phoeni pan fyddant yn cael 'trafferth'.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi ac yn dangos lefelau da o ganolbwyntio a dyfalbarhad wrth gwblhau tasgau.  Maent yn cydweithio'n effeithiol, er enghraifft wrth weithio mewn grwpiau i gynllunio beth ddylai'r prif gymeriad yn eu stori ei wneud nesaf.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac maent yn hapus yn yr ysgol.  Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u hawliau wedi iddynt gymryd rhan mewn menter parchu hawliau.  Er enghraifft, maent yn deall bod ganddynt hawl i deimlo'n ddiogel.  Maent yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth arnynt, neu os byddant yn poeni.  Maent yn gwrtais ac yn awyddus i ryngweithio ag ymwelwyr.  Mae bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall yn dda bwysigrwydd bod yn weithgar a chael ffordd iach o fyw.  Mae llawer ohonynt yn frwdfrydig ynglŷn â chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac awyr agored.  Er enghraifft, mae disgyblion yn deall bod

mynychu gweithgareddau, fel nofio a dawnsio, yn eu cynorthwyo i fod yn gorfforol iach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall bod angen gwneud dewisiadau iach. Maent yn myfyrio ar yr angen i gael diet cytbwys ac yn cydnabod bod y clwb brecwast, cinio ysgol iach a'r siop ffrwythau, yn dylanwadu'n gadarnhaol ar eu harferion bwyta.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau yn llwyddiannus, fel grŵp iau diogelwch y ffyrdd a'r pwyllgor eco. Mae'r disgyblion hyn yn gweithio'n ddiwyd ac yn mynd ati i hyrwyddo mentrau, fel ailgylchu. Dangosant ddealltwriaeth glir o'u rôl mewn helpu ffurfio cymuned eu hysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad gyda dealltwriaeth glir am bwysigrwydd dyheadau uchel ar gyfer y dyfodol. Maent yn siarad yn hyderus y bydd dysgu mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn helpu cefnogi'r nod hwn. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gryf â gweithgareddau gwyddoniaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel ar-lein, gyda chymorth da gan waith disgyblion sy'n arweinwyr digidol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae pob un o'r athrawon yn datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda disgyblion, ac mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i roi cynnig ar weithgareddau newydd yn hyderus. Mae llawer o athrawon yn ystyried yn ofalus ffyrdd i ennyn diddordeb disgyblion ar ddechrau gwersi, er enghraifft trwy ddefnyddio fideos difyr yn effeithiol. Maent yn holi disgyblion yn feddylgar ac yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda i helpu disgyblion i ddeall diben gwersi. Mewn mwyafrif o ddosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio staff cymorth dysgu yn bwrpasol. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, nid yw athrawon yn addasu gweithgareddau'n ddigon da i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion hynny sydd angen mwy o gymorth. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn elwa'n gyson dda ar eu gweithgareddau dysgu.

Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio ychydig o strategaethau syml i'w helpu i fonitro p'un a yw disgyblion wedi deall tasgau ac esboniadau, er enghraifft trwy ofyn i ddisgyblion godi eu bodiau neu roi eu bodiau i lawr. Mewn ychydig o wersi, maent yn darparu meini prawf llwyddiant ar gyfer disgyblion, ac mae hyn yn sicrhau bod gan ddisgyblion restr wirio ddefnyddiol i arwain eu gwaith. Caiff disgyblion ychydig o gyfleoedd defnyddiol i ystyried ansawdd eu gwaith eu hunain neu waith eu cyfoedion, a gwneud gwelliannau addas. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio nac yn datblygu'r strategaethau hyn yn ddigon cyson nac yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw mwyafrif y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cryf o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol gynlluniau cynhwysfawr ar waith i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys. Er enghraifft, mae taith ysgrifennu gynlluniedig yr ysgol yn llwyddo i ddatblygu dealltwriaeth llawer o ddisgyblion o sut i ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau estynedig. Mae cynllunio mathemateg yn adeiladu'n systematig ar fedrau disgyblion. Er enghraifft, yn y dosbarth meithrin, mae gweithgaredd pwyso ymarferol yn datblygu dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o dermau mathemategol yn effeithiol, ac ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn cyfrifo ffracsiynau pwysau mewn perthynas â dogni yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau gwyddoniaeth yn effeithiol ac mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da yn y

maes cwricwlwm hwn. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu cynlluniedig mewn addysg grefyddol yn gyfyngedig, ac nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu gwybodaeth a medrau yn y maes hwn wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae staff y cyfnod sylfaen yn cynllunio'n greadigol i ddisgyblion ddefnyddio'r awyr agored i ddatblygu eu dysgu a'u medrau. Er enghraifft, yn y dosbarth meithrin, mae disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol gan adeiladu gyda brics mawr, plastig yn yr ardal adeiladu. Maent yn cynllunio ystod fuddiol o weithgareddau dysgu annibynnol ac wedi'u harwain gan oedolion. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw oedolion bob amser yn ymyrryd ar adegau priodol i helpu symud dysgu disgyblion ymlaen.

Mae athrawon yn dechrau ystyried y cwricwlwm newydd a'i bedwar diben wrth gynllunio gweithgareddau dysgu, ac maent yn datblygu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu eu hunain. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn helpu cynllunio testun ar bartïon ar gyfer tymor y gwanwyn. Mae'r strategaethau hyn yn gwella ymgysylltiad a diddordeb disgyblion yn eu dysgu yn dda.

Mae staff yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn ymarfer tynnu llun graffiau llinell wrth ddadansoddi data o dyfu tatws. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ystod ddigon eang o fedrau TGCh. Yn ychwanegol, nid yw cyfleoedd i ddatblygu medrau Cymraeg mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol a sefyllfaoedd anffurfiol yn datblygu'n ddigon systematig dros gyfnod.

Mae profiadau dysgu yn adlewyrchu cyd-destun yr ysgol, yr ardal leol a Chymru yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu eu dealltwriaeth o ddawnsio gwerin, caneuon a storïau Cymraeg yn effeithiol trwy'r prosiect ysgolion creadigol arweiniol difyr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cymharu eu hardal ag ardal arall mewn sir gyfagos. Llwyddodd athrawon i wella'r cwricwlwm yn briodol trwy ymweliadau addysgol ac ymwelwyr. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ymweld â chanolfan awyr agored lle maent yn dysgu am yr amgylchedd ac yn ymgymryd â gweithgareddau awyr agored, fel canŵio.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant**

Mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rôl weithgar mewn gwneud penderfyniadau ac ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion o'r cyngor ysgol a grŵp iau diogelwch y ffyrdd, yn gweithio gyda'r heddwas cymorth lleol i fynd i'r afael â'r broblem barcio y tu allan i'r ysgol. Mae pwyllgor eco'r ysgol yn codi materion lleol, fel anifeiliaid anwes yn baeddu yn y gymuned. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn hyrwyddo confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn, ac mae hyn yn helpu sicrhau bod disgyblion yn deall eu rhyddid personol. Mae'r medrau hyn yn cyfrannu'n bwrpasol at ddealltwriaeth disgyblion fod ganddynt rôl bwysig yn eu cymdeithas.

Mae gan yr ysgol berthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni a'r gymuned leol. Mae arweinwyr a staff yn cyfleu gwybodaeth bwysig am fywyd yr ysgol yn dda, er enghraifft trwy gylchlythyrau rheolaidd a chyfryngau cymdeithasol. Mae rhieni'n gwerthfawrogi polisi drws agored yr ysgol gan fod hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol

iddynt fynegi eu barn neu godi pryderon. Mae arweinwyr yn cynllunio'n dda i helpu rhieni a gofalwyr gefnogi dysgu eu plant. Er enghraifft, fe wnaeth gweithdy diweddar ar gyfer rhieni eu helpu i ddeall sut mae'r ysgol yn addysgu cysyniadau rhifiadol sylfaenol, a darparwyd awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â sut gallent helpu eu plentyn gartref.

Mae athrawon yn monitro a dadansoddi gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn briodol. Mewn mwyafrif o achosion, defnyddiant y wybodaeth hon yn gymwys i helpu nodi disgyblion sydd angen cymorth. Fodd bynnag, nid yw gwerthusiadau athrawon bob amser yn ddigon cywir, ac o ganlyniad, nid ydynt yn nodi'n ddigon da leiafrif o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae gan yr ysgol drefniadau boddhaol i gynorthwyo'r disgyblion y mae'n nodi bod angen cymorth arnynt â'u dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 y nodwyd bod angen cymorth arnynt i wella eu medrau llythrennedd, yn elwa ar ystod gyfyngedig o ymyriadau. Fodd bynnag, yn y cyfnod sylfaen, mae athrawon yn rheoli cymorth ar gyfer disgyblion yn y dosbarth, ac nid yw hyn yn gyson effeithiol o ran mynd i'r afael ag anghenion y disgyblion hyn. Ar draws yr ysgol, mae cynlluniau datblygiad unigol disgyblion yn addas. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn nodi'n ddigon clir pa gymorth sydd ei angen ar ddisgyblion, na'u targedau ar gyfer gwella. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn bob amser yn gwneud cynnydd digon cryf.

Mae staff yn gweithio'n dda gydag ystod o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith a seicolegwyr addysg. Mae'r trefniadau hyn yn darparu cymorth buddiol ar gyfer disgyblion.

Mae gan yr ysgol amrywiaeth eang o strategaethau ar gyfer gwella presenoldeb disgyblion. Mae staff yn cysylltu'n rheolaidd â rhieni disgyblion y mae eu presenoldeb yn wael, trwy alwadau ffôn ac ymweliadau cartref. O ganlyniad, maent yn deall y rhesymau dros fod yn absennol o'r ysgol yn dda. Mae cymhellion yn cynnwys gwobrau am bresenoldeb gwell, fel diwrnodau dim gwisg ysgol, tystysgrifau a llythyrau gartref at rieni. Caiff y mentrau hyn effaith addas o ran gwella cyfraddau presenoldeb.

Mae gan yr ysgol drefniadau gwerth chweil i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac mae llysgenhadon chwaraeon yr ysgol yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn effeithlon. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol i sicrhau bod disgyblion yn gwneud dewisiadau iach o ran ffordd o fyw, er enghraifft trwy weithgareddau allgyrsiol fel clwb dawns.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn dda, er enghraifft trwy addoli ar y cyd a thrwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwerthoedd cryf a gofalgar. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld â'r cartref gofal lleol yn rheolaidd, ac yn gweithio gyda chleifion sydd â dementia. Mae ymweliadau gan arweinwyr crefyddol lleol yn helpu disgyblion i ystyried a myfyrio ar eu hysbrydolrwydd yn bwrpasol.

At ei gilydd, mae prosesau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion. Fodd bynnag, nododd y tîm arolygu ychydig o faterion yn yr amgylchedd awyr agored a allai effeithio ar les disgyblion, a thynnodd sylw arweinwyr yr ysgol at y rhain.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r pennaeth, y staff a'r corff llywodraethol yn rhannu diben cyffredin, ac yn llwyddo i greu cymuned bwyllog, ofalgar a chynhwysol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r staff yn dîm ymroddgar a chefnogol, sy'n ymdrechu'n gyson i baratoi disgyblion i fod yn unigolion caredig a gofalgar. Er enghraifft, i helpu gwireddu'r weledigaeth hon, maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael cysylltiadau rheolaidd â ward dementia leol ar gyfer yr henoed trwy weithgareddau ffrindiau llythyru ac ymweliadau.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol yn llwyddiannus. Mae gweithdrefnau defnyddiol ar waith i arfarnu staff, sy'n arwain at dargedau penodol ar gyfer datblygu ymhellach. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys deialog broffesiynol fuddiol am gryfderau athrawon a'u meysydd i'w datblygu, ac mewn llawer o achosion, yn arwain at welliant yn arfer athrawon. Mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd gwerth chweil i bob un o'r staff ymgymryd â dysgu proffesiynol. Mae ychydig o athrawon yn helpu hyfforddi staff mewn lleoliadau eraill, ac mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r consortiwm rhanbarthol a'r awdurdod lleol i hwyluso hyn. Mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant rheolaidd yn yr ysgol, ac fe gaiff hyn effaith fuddiol mewn ychydig o achosion. Er enghraifft, mae rhannu arfer dda wrth addysgu mathemateg wedi arwain at safonau gwell yn y maes cwricwlwm pwysig hwn.

Mae pob aelod o staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau. Maent yn gweithio'n gydwybodol i fonitro agweddau ar waith yr ysgol, er enghraifft trwy graffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi. Fodd bynnag, nid yw eu monitro yn canolbwyntio'n ddigon da ar nodi'r safonau a gyflawnwyd gan ddisgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion. O ganlyniad, nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn cefnogi'r ysgol i nodi materion pwysig y mae angen eu gwella, er enghraifft gwella safonau disgyblion sy'n llai abl neu angen cymorth. Nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol bob amser yn cysylltu'n ddigon clir â strategaethau gwella. Mae gan arweinwyr ystod eang o flaenoriaethau y maent yn gweithio arnynt, ac nid yw hi bob amser yn glir sut byddant yn monitro effaith camau gweithredu ac yn barnu eu llwyddiant. O ganlyniad, nid yw'r gweithdrefnau hyn bob amser yn ddigon effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau yn gydwybodol. Mae'r pennaeth yn rhoi gwybodaeth reolaidd i lywodraethwyr am waith yr ysgol, a'i hymateb i ddatblygiadau cenedlaethol, er enghraifft sut mae'n datblygu meysydd dysgu a phrofiad newydd yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae gan y corff llywodraethol ymwybyddiaeth gadarn o flaenoriaethau strategol yr ysgol, a datblygiadau diweddar. Fodd bynnag, mae rolau'r llywodraethwyr o ran herio'r ysgol ynglŷn â safonau a chynnydd disgyblion yn gyfyngedig.

Mae arweinwyr wedi gwneud penderfyniadau anodd er mwyn rheoli cyllideb heriol. Maent yn rheoli adnoddau'r ysgol yn effeithiol ac yn ystyried penderfyniadau am wariant mewn perthynas â blaenoriaethau gwella yn briodol. At ei gilydd, mae arweinwyr yn darparu adnoddau o ansawdd da sy'n bodloni anghenion disgyblion yn dda. Maent yn rheoli'r ardal allanol yn y cyfnod sylfaen yn effeithiol i wella profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn briodol i ddarparu staff ychwanegol ar gyfer gwaith gyda dysgwyr sy'n agored i niwed. Mae hyn yn cynorthwyo'r dysgwyr hyn i wneud cynnydd addas.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2019